ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwneud gwahaniaeth

Canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion



Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 255/2017
Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2017

Gwneud gwahaniaeth

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig; athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; perchnogion ysgolion annibynnol; sefydliadau addysg bellach; undebau staff ysgolion; Llywodraethwyr Cymru; Gyrfa Cymru; awdurdodau addysg uwch; cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol; penaethiaid gwasanaethau plant a gweithwyr cymdeithasol. Hefyd, dylai'r canllawiau hyn gael eu darllen gan staff mewn sefydliadau sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal, maethu a mabwysiadu, a sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio i gefnogi plant.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno rolau a chyfrifoldebau'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion a'r gweithwyr allweddol sydd ar gael i gynorthwyo gyda'r gwaith. Fe'i lluniwyd gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Grŵp Strategol Cenedlaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r grŵp yn cynnwys rhanddeiliaid allanol sydd wedi gwneud cyfraniad allweddol at ddatblygu ein rhaglen waith gyfunol.

Camau i'w cymryd

Mae'r canllawiau hyn yn adnodd ymarferol i helpu'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion i gyflawni ei swyddogaeth.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Tîm Cefnogi Cyflawniad a Diogelu
Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000 253344
e-bost: LACstrategy@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/addysgasgiliau

Dogfennau cysylltiedig

Gweler yr Atodiad.

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG30981 ISBN digidol 978 1 4734 8604 1

Cynnwys

Cyflwyniad **2**
Cyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol allweddol 4
Swyddogaeth y person dynodedig 6
Grant Datblygu Disgyblion (PDG): plant sy'n derbyn gofal 15
Y Cynllun Addysg Personol a'r cynllun gofal a chymorth 16
Y Cynllun Addysg Personol a'r Cynllun Llwybr 17
Plant sy'n derbyn gofal sy'n pontio o leoliad cyn ysgol i addysg orfodol 17
Cyfraniad y person dynodedig at baratoi plant i bontio rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd 18
Ymyriad pontio Gwasanaeth Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACES) Castell-nedd Port Talbot 18
Addysg ôl-16 18
Cysylltiadau â chanllawiau presennol **21**
Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal 21
Cyngor arall ar gyfer y person dynodedig 23
Astudiaethau achos arfer da 23
Hyfforddiant sydd ar gael 24
Datblygu arfer da: rhestr wirio o gwestiynau 24
Cysylltiadau defnyddiol **25**
Atodiad: Dogfennau cysylltiedig **26**

Cyflwyniad

Cenhadaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc gyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf. Mae'r gred na ddylai gallu unigolyn i fanteisio ar addysg fod yn seiliedig ar ei amgylchiadau personol yn hollbwysig yn y cyswllt hwn, felly hefyd awydd i leihau anghydraddoldeb a dileu rhwystrau i addysg. Mae cynhwysiant yn ganolog i'n hagenda, ac mae cyllid wedi'i ddarparu i ysgolion er mwyn cefnogi pob un o'n dysgwyr a sicrhau nad ydynt o dan unrhyw anfantais.

Rydym yn sylweddoli mai anaml iawn y mae deilliannau dysgu[1] plant sy'n derbyn gofal[2] yn cymharu'n ffafriol â phlant a phobl ifanc eraill. Gwyddom fod amgylchiadau wedi amharu ar addysg llawer o'r dysgwyr hyn a'u bod wedi methu cyfnodau hir yn yr ysgol o bosibl. Mae'r bylchau yn eu haddysg – ac mewn llawer o achosion effaith emosiynol eu profiadau – yn debygol o fod yn rhwystrau sylweddol i'w cynnydd. Mae natur gymhleth y profiad darniog hwn yn gofyn am waith asesu a chynllunio gofalus.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, cyhoeddwyd ein cynllun ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn addysg – *Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru*[3] – ym mis Ionawr 2016.

Roedd y cynllun hwn yn cynnwys cam gweithredu (rhif 3) i Lywodraeth Cymru:

Ddatblygu a chyhoeddi canllawiau ar swyddogaethau a chyfrifoldebau'r unigolyn arweiniol dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion, a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu i gefnogi'r gwaith hwnnw.

Fel rhan o'r gwaith a gwblhawyd gyda phlant a phobl ifanc wrth ddatblygu'r cynllun trwy Voices From Care a CASCADE: Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant yn benodol, mae plant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd yn arfer derbyn gofal wedi dweud wrthym yn glir bod angen gwneud llawer o waith i helpu ysgolion i ddeall y rhwystrau sy'n effeithio ar blant â phrofiad o dderbyn gofal a'u cynorthwyo i gyflawni eu cyfrifoldebau tuag at blant sy'n derbyn gofal.

Mae adran 20 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008[4] yn datgan bod yn rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ddynodi aelod o staff ("y person dynodedig") fel unigolyn sy'n gyfrifol am hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol waeth a oes plant sy'n derbyn gofal yn mynychu'r ysgol ai peidio, gan fod angen i ysgolion baratoi'n ddigonol i ymateb yn gyflym i anghenion plant sy'n derbyn gofal a all gyrraedd yr ysgol ar fyr rybudd.

---

[1] http://gov.wales/docs/statistics/2017/170308-wales-children-need-census-2016-en.pdf

[2] Mae plant sy'n derbyn gofal (plant mewn gofal) yn cael eu diffinio yn Neddf Plant 1989. Mae plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol os yw'r llys wedi cyflwyno gorchymyn gofal i roi plentyn mewn gofal, neu os oes adran gwasanaethau plant y cyngor wedi gofalu am y plentyn am fwy na 24 awr. Yng nghyd-destun y canllaw hwn, mae'r term 'Plant sy'n derbyn gofal' yn cyfeirio at blant a phobl ifanc mewn gofal.

[3] http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/educational-attainment-of-looked-after-children/?skip=1&lang=cy

[4] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/23/section/20

Prif gyfrifoldeb y person dynodedig yw sicrhau bod yr ysgol yn diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal.

Mae hyn yn seiliedig ar ganllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan isadran (4) adran 20. Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu gydymffurfio â'r canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan adran 20.

Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar swyddogaeth y person dynodedig mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig, ond mae hefyd yn berthnasol i'r cyfnodau pan fydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn symud o addysg cyn ysgol i addysg orfodol ac i addysg bellach ac addysg uwch. Hefyd, mae'r arferion da yn y canllaw hwn yn berthnasol i leoliadau addysg ôl-16 sydd â pherson dynodedig ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a/neu bobl sy'n gadael gofal.

Nid yw adran 20 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 yn berthnasol i unedau cyfeirio disgyblion. Nid oes gan Bwyllgor Rheoli uned cyfeirio disgyblion ddyletswydd i ddynodi aelod o staff ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ond rydym yn annog unedau o'r fath i ddilyn arferion da'r canllaw hwn.

Mae'r canllaw hwn yn pennu'r safonau sylfaenol sy'n cael eu disgwyl gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith y person dynodedig er mwyn sicrhau arferion cyson mewn ysgolion a gynhelir ledled Cymru. Mae'n egluro cyfrifoldebau'r person dynodedig, ysgolion, awdurdodau lleol a'r corff llywodraethu a'i nod yw helpu i gryfhau'r trefniadau gweithredol ac adrodd rhwng y swyddogaethau allweddol hyn. Mae'n amlygu arferion da ledled Cymru, ac yn cynnwys enghreifftiau o adnoddau defnyddiol a dogfennau canllawiau allweddol.

Hefyd, rydym wedi cynnwys rhai o argymhellion ymarfer da gwaith ymchwil Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant – **CASCADE – Prifysgol Caerdydd**[5] yn y canllaw hwn.

[5] http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/research/research-projects/looked-after-children-and-education/

Cyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol allweddol



Mae'r adran hon yn amlinellu swyddogaethau allweddol gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal a'r gydberthynas rhyngddynt. Mae angen i ni sicrhau bod y trefniadau hyn yn datblygu enghreifftiau o weithio'n dda mewn partneriaeth ac awydd pawb sy'n rhan o fywydau plant sy'n derbyn gofal i wella perfformiad addysgol y dysgwyr hyn. Mae'n hanfodol bod cymorth digonol ar gael i greu amgylchedd sy'n hwyluso cydweithio effeithiol ac yn cael effaith ar ganlyniadau gwell.

Mae plant a phobl ifanc sy'n dechrau derbyn gofal yn mynd yn rhan o gyfres o systemau a chysylltiadau cymhleth. O ystyried natur gymhleth yr asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi bywydau'r plant a'r bobl ifanc hyn, mae gwaith amlasiantaethol effeithiol yn hanfodol.

Cyrff llywodraethu
Mae'n rhaid iddynt ddynodi aelod o staff mewn ysgolion i fod â phrif gyfrifoldeb am hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae "ysgolion" yn cynnwys pob ysgol gynradd, uwchradd ac ysgol arbennig a gynhelir. At ddibenion cysondeb, dylai person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgol wneud y gwaith am flwyddyn academaidd lawn o leiaf cyn ystyried ei newid.

Os yw plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei addysgu mewn ysgol annibynnol neu ysgol arbennig nas cynhelir, dylai'r awdurdod sy'n gosod y plentyn ei fodloni ei hun bod yr ysgol wedi gwneud trefniadau priodol i gefnogi anghenion y plentyn sy'n derbyn gofal. Nid oes angen person dynodedig ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu mewn cartref plant nad yw'n gymwys i gael ei gofrestru fel ysgol.

Ni fydd gan rai ysgolion unrhyw blant sy'n derbyn gofal. O ystyried anghenion penodol plant o'r fath, dylai pob corff llywodraethu ddynodi aelod o staff beth bynnag. Mae'n rhaid i'r corff

llywodraethu sicrhau bod y person dynodedig yn cwblhau hyfforddiant priodol, sy'n cael ei ddarparu fel arfer gan Gydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yr awdurdod lleol. Dylai cyrff llywodraethu drefnu hyfforddiant ar gyfer person dynodedig sydd newydd ei benodi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Bydd hyn yn golygu bod modd darparu'r cymorth gofynnol ar unwaith os oes plentyn sy'n derbyn gofal yn dechrau mynychu'r ysgol.

Os yw plentyn sy'n derbyn gofal wedi'i gofrestru mewn ysgol ond ei fod yn derbyn addysg yn rhywle heblaw yn yr ysgol, mae'r ysgol yn gyfrifol am sicrhau diogelwch y plentyn. Os nad yw plentyn sy'n derbyn gofal wedi'i gofrestru mewn ysgol a'i fod yn derbyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, yr awdurdod lleol (fel y rhiant corfforaethol) sy'n gyfrifol am sicrhau diogelwch y plentyn.

Polisi ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
Dylai'r corff llywodraethu gydweithio â'r pennaeth i lunio polisi ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan fynd ati'n rheolaidd i fonitro'r polisi a'i roi ar waith yn yr ysgol. Mae'n rhaid i'r polisi gydymffurfio â'r gofynion canlynol:

- dynodi aelod o staff i fod â chyfrifoldeb am hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol
- sicrhau bod y person dynodedig yn cwblhau hyfforddiant priodol.

Dylai'r polisi gynnwys y canlynol o leiaf:

- trefniadau'r ysgol ar gyfer derbyn plant sy'n derbyn gofal
- monitro data presenoldeb, asesu a chyflawni plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol ar sail unigol neu gyfunol
- trefniadau dal i fyny ar ôl nodi bylchau mewn gwybodaeth ac addysg plentyn
- annog y plentyn i fynychu clybiau ar ôl yr ysgol, bod yn aelod o gyngor yr ysgol neu fynychu sesiynau adolygu ychwanegol
- trefniadau i fynychu hafan ddiogel neu sesiynau cwnsela yn yr ysgol os oes angen
- trefniadau i sicrhau bod Cynlluniau Addysg Personol yn cael eu cwblhau a bod modd mynychu'r cyfarfodydd adolygu amlasiantaethol
- y defnydd o wahardd fel cosb a'r defnydd o ddewisiadau amgen i waharddiadau cyfnod penodol (fel gwasanaeth cymunedol) neu waharddiad parhaol (fel symudiad wedi'i reoli)
- trefniadau ar gyfer sefyllfa lle mae plentyn yn gadael yr ysgol gan ei fod yn cael ei leoli mewn lle gwahanol, neu oherwydd bod ei amser yn yr ysgol yn dod i ben
- cyfeirio at y polisi ac at y person dynodedig a enwir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ym mhrosbectws yr ysgol.

Penaethiaid
Er mai'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am benodi'r person dynodedig ac am hysbysu Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yr awdurdod lleol, mae'n rhaid i'r pennaeth wneud cyfraniad allweddol at y broses hon. Dylai'r pennaeth weithio gyda'r awdurdod lleol i

sicrhau bod y person dynodedig a enwir yn derbyn yr hyfforddiant gofynnol ac yn cael digon o amser i fynychu'r hyfforddiant - (fel rhan o'i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP)) – ac amser i fynychu cyfarfodydd adolygu statudol yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Mae penaethiaid yn gyfrifol am sicrhau bod polisi'r ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cynnwys yr uchod.

Pwysig!

Mae angen sicrhau bod gan y person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol yr un statws ag unigolion allweddol eraill fel y Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (neu'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol) a'r uwch swyddog dynodedig ar gyfer amddiffyn plant.

Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (Cydlynydd AAA[6])
Mewn ysgolion a gynhelir, mae'r Cydlynydd AAA yn gwneud cyfraniad allweddol at lunio polisi a darpariaeth AAA yr ysgol, ac mae'n gyfrifol am weithredu'r polisi o ddydd i ddydd ac am gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer plant unigol ag AAA. Hefyd, mae'n darparu arweiniad proffesiynol cysylltiedig i gydweithwyr er mwyn ceisio sicrhau addysgu o safon uchel ar gyfer plant ag AAA. O ystyried bod gan gyfran uchel o blant sy'n derbyn gofal AAA[7] o ryw fath, mae'r Cydlynydd AAA yn gwneud cyfraniad allweddol at eu haddysg.

Uwch swyddog dynodedig ar gyfer amddiffyn plant
Mae'n rhaid i bob ysgol a gynhelir nodi uwch swyddog dynodedig i fod â phrif gyfrifoldeb am reoli materion ac achosion amddiffyn plant yn yr ysgol. Dylai'r uwch swyddog dynodedig adnabod a nodi arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod a gwybod pan fydd yn briodol gwneud atgyfeiriad i asiantaethau ymchwilio perthnasol. Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn dechrau derbyn gofal oherwydd eu bod wedi'u cam-drin neu eu hesgeuluso. Oherwydd y profiadau hyn, bydd gan lawer o blant a phobl ifanc anghenion emosiynol ac iechyd meddwl cymhleth, sy'n gallu eu gwneud yn fwy agored i gael eu cam-drin ac arwain at ymddygiad peryglus weithiau. Mae cydweithio agos â'r uwch swyddog dynodedig yn hanfodol i sicrhau bod unrhyw beryglon diogelu yn cael eu deall a'u nodi'n glir a bod camau priodol yn cael eu rhoi ar waith.

Swyddogaeth y person dynodedig

Mae'n rhaid i'r person dynodedig ddeall y system ofal a'r effaith bosibl y mae bod mewn gofal yn ei chael ar ddeilliannau addysgol plentyn. Ar ôl cwblhau hyfforddiant priodol, disgwylir i'r aelod o staff greu newid a datrys problemau yn effeithiol, gan amlygu ymrwymiad dilys i geisio sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae cefndir mewn gofal bugeiliol yn ofyniad allweddol yn aml.

Mae angen i'r sawl sy'n gwneud y gwaith hwn allu sicrhau bod yr ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â sefydliadau eraill fel yr awdurdod lleol (yr adran addysg a'r adran gwasanaethau cymdeithasol) yn ogystal â'r plentyn/person ifanc a'i ofalwyr. Mae'n hollbwysig bod y

[6] O dan y Bil ADY (sydd wedi cyrraedd cam 3 yn y Cynulliad), mae Cydlynwyr ADY yn disodli Cydlynwyr AAA, a byddant yn cyflawni swyddogaeth debyg.
[7] http://gov.wales/docs/statistics/2017/170308-wales-children-need-census-2016-en.pdf

gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr addysg yn cyfathrebu â'i gilydd mewn ffordd amserol a chynhwysfawr er mwyn osgoi unrhyw oedi i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Os oes nifer sylweddol o blant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol, gall y pennaeth enwebu aelod o'r tîm arwain i gael ei ddynodi gan y corff llywodraethu i wneud y gwaith a chydgysylltu trosolwg o'r plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol. Yn y sefyllfa hon, byddai angen cydweithio ag eraill sy'n gweithio gyda'r plant bob dydd, gan gynnwys athrawon dosbarth, penaethiaid blwyddyn, Swyddogion Lles Addysg, arweinwyr dysgu a swyddogion cynhwysiant. Hefyd, byddai angen sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau tuag at y plant yn ymwneud â materion fel monitro presenoldeb dyddiol, olrhain cynnydd, monitro llesiant emosiynol a chwblhau Cynlluniau Addysg Personol.

Gan ddibynnu ar anghenion unigol penodol y plentyn, gall fod yn briodol i'r Cydlynydd AAA[8] neu'r Uwch Swyddog Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant gyflawni swyddogaeth y person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Nid yw penodi person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn lleihau cyfrifoldeb penaethiaid. Y pennaeth yw'r gweithiwr proffesiynol arweiniol ac arweinydd yr ysgol, ac mae'n gyfrifol am ansawdd y dysgu a'r addysgu ac am gyflawniadau **pob** dysgwr.

O ystyried y cyfrifoldeb eang hwn, dylai'r corff llywodraeth ymgynghori â'r pennaeth cyn dewis y person dynodedig. Dylai'r corff llywodraethu fod yn fodlon bod y person dynodedig yn blaenoriaethu addysg ar gyfer y plentyn sy'n derbyn gofal.

Dylai'r broses o ddewis person dynodedig fod yn seiliedig ar nifer o ffactorau gan gynnwys strwythurau rheoli presennol yr ysgol, maint yr ysgol a nifer y plant sy'n derbyn gofal a'u hanghenion penodol, sy'n gallu bod yn wahanol iawn. Mae angen ystyried ehangu dyletswyddau aelod o staff sy'n cyflawni swyddogaeth strategol, gynhwysiant neu fugeiliol ar hyn o bryd, fel sy'n briodol.

Mae'r person dynodedig yn gwneud gwaith allweddol fel arweinydd a hyrwyddwr plant sy'n derbyn gofal. Mae'n rhaid iddo allu gweithio gyda chorff llywodraethu'r ysgol i lunio polisi'r ysgol a goruchwylio'r broses o'i weithredu. Mae hyn yn cynnwys:

- hyrwyddo dyheadau uchel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
- monitro deilliannau dysgu
- grymuso staff ysgol i gyfrannu at addysg a phrofiadau dysgu ehangach plant sy'n derbyn gofal
- cynnal trafodaethau â phlant sy'n derbyn gofal
- bod yn sensitif i natur gymhleth bywydau plant sy'n derbyn gofal.

Disgwylir y bydd y person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gwneud y canlynol:

[8] O dan y Bil ADY (sydd wedi cyrraedd cam 3 yn y Cynulliad), mae Cydlynwyr ADY yn disodli Cydlynwyr AAA, a byddant yn cyflawni swyddogaeth debyg.

- sicrhau bod yr ysgol yn rhannu ac yn cefnogi disgwyliadau uchel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Dylai'r ysgol ystyried darparu prosiectau sy'n ceisio cynyddu dyheadau a chynlluniau mentora (o bosibl gan bobl sydd â phrofiad o'r maes gofal) fel dull o gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal

- sicrhau bod llesiant plant sy'n derbyn gofal yn cael ei fonitro'n effeithiol a bod eu hanghenion lles yn cael eu diwallu

- sicrhau bod gwybodaeth gyfoes a chywir ar gael am blant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol. Dylai hyn gynnwys manylion gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr, a gwybodaeth am bobl na ddylai'r plentyn gael unrhyw gysylltiad â nhw

- meithrin diwylliant o gydweithio cadarnhaol, gan gysylltu â'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal os oes problemau cyfathrebu'n codi gyda gweithwyr cymdeithasol neu ofalwyr

- mae gwybodaeth am addysg yn cael ei throsglwyddo'n ddi-oed rhwng asiantaethau ac unigolion

- mae cyfnod pontio plentyn sy'n derbyn gofal o feithrinfa i ysgol ac o ysgol i addysg ôl-16 (addysg bellach/uwch) yn cael ei gydgysylltu'n effeithiol gan bob partner

- mae cytundeb rhwng y cartref a'r ysgol yn cael ei lunio gyda'r gofalwr

- cynhelir trafodaethau rheolaidd â'r plentyn er mwyn darparu cymorth iddo yn yr ysgol

- caiff anghenion addysgol y plentyn eu nodi mewn ymgynghoriad â'i athro/athrawon, ac mae heriau ymarferol a thargedau academaidd yn cael eu pennu er mwyn diwallu'r anghenion

- caiff Cynllun Addysg Personol ei lunio mewn partneriaeth â'r plentyn, y rhiant a/neu aelod o'r teulu perthnasol, gofalwr, gweithiwr cymdeithasol ac unrhyw berson perthnasol arall. Mae'n rhaid sicrhau bod y Cynllun Addysg Personol ar gael yng nghyfarfod adolygu'r plentyn sy'n derbyn gofal, ond mae'n ymarfer da adolygu'r Cynllun Addysg Personol ar wahân i'r adolygiad cyffredinol o'r plentyn sy'n derbyn gofal

- mae Cynlluniau Addysg Personol a chanllawiau ar gael gan y Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal

- mae digon o amser yn cael ei neilltuo i sicrhau bod yr ysgol yn cael ei chynrychioli yn yr adolygiad o'r plentyn sy'n derbyn gofal

- dylid cynnal holl gyfarfodydd plant sy'n derbyn gofal y tu allan i amseroedd gwersi (oherwydd rhesymau'n ymwneud ag amgylchiadau gofal). Os nad oes modd gwneud hyn, dylid darparu ystafell briodol er mwyn sicrhau bod y cyfarfod yn breifat.

- dim ond aelodau staff ysgol sydd wir angen mynychu cyfarfodydd gyda phlant sy'n derbyn gofal sy'n eu mynychu

- nid yw plant sy'n derbyn gofal yn gorfod clywed anghydfodau yn ymwneud â chyllid a chyfrifoldebau mewn cyfarfodydd

- mae unrhyw faterion sy'n codi a all beryglu'r lleoliad yn yr ysgol yn cael eu datrys yn ddi-oed. Dylid cymryd pob cam posibl i osgoi gwahardd disgybl, gan gynnwys darparu cymorth bugeiliol, atgyfeirio'r disgybl i gael cymorth ymddygiad a chysylltu â'r Gwasanaeth Lles Addysg. Gweler astudiaeth achos Rhaglen Cymorth Bugeiliol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot [9].

- mae plentyn sy'n derbyn gofal sy'n cael ei ailgyflwyno i'r ysgol yn derbyn y cymorth sydd ei angen arno i sicrhau bod y broses yn llwyddiannus

- mae cydweithio rheolaidd ar faterion fel presenoldeb gwael yn mynd rhagddo gyda'r Swyddog Lles Addysg

- mae plant sy'n derbyn gofal sydd ag anawsterau dysgu neu ymddygiad yn cael eu hasesu er mwyn nodi eu hanghenion cymorth a darparu ar eu cyfer

- mae atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i wasanaethau cymorth fel sy'n briodol e.e. gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol

- gweithio gyda'r pennaeth – mae cynnydd addysgol plant sy'n derbyn gofal yn cael ei adrodd i'r corff llywodraethu bob tymor

- mae cofrestr yr ysgol o blant sy'n derbyn gofal wedi'i diweddaru

- mae hyfforddiant yn cael ei gwblhau i gyflawni dyletswyddau llawn y gwaith yn effeithiol.

Gweithwyr allweddol eraill y tu allan i'r ysgol
Mae gweithwyr proffesiynol amrywiol mewn nifer o ddisgyblaethau ar gael i gefnogi plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn cynnwys yr holl sectorau, ac mae gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn arwain y gwaith. Er mwyn sicrhau'r canlyniadau priodol, mae'n rhaid i bawb gyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, gan sicrhau bod yr holl weithgarwch yn canolbwyntio ar y plentyn.

Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal
Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Plant 1989 a 2004, mae'n ofynnol i awdurdodau cyfrifol ddynodi ymarferydd arbenigol (Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal - LACE) er mwyn cydgysylltu cynllun addysg y plentyn a diwallu anghenion addysg plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal yn ardal yr awdurdod lleol. Hefyd, mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol sicrhau bod gan bob plentyn y mae'n gofalu amdano Gynllun Addysg Personol effeithiol o safon uchel.

Mae union swyddogaethau Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu diffinio gan awdurdodau lleol unigol ac maent yn gallu amrywio ledled Cymru.

[9] http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/raise/swamwac/7527/7527-Pastoral-Support-Programme.pdf

Mae'r cydgysylltwyr hyn yn sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn derbyn unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt ar gyfer eu haddysg, ac maent yn gweithio yn adran gofal cymdeithasol neu adran addysg yr awdurdod lleol.

Dylai'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal feddu ar y sgiliau a'r galluoedd perthnasol i wneud ei waith. Bydd ganddo gylch gwaith clir i sefydlu a chyflwyno gweithdrefnau a phrotocolau ar y cyd, darparu gwybodaeth briodol i bawb sy'n gysylltiedig â rhianta corfforaethol a gweithredu fel hyrwyddwr ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal cyhoeddus.

Fel swyddog dynodedig awdurdod lleol, disgwylir i'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal gyflawni'r swyddogaethau canlynol o leiaf:

- gweithio tuag at amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal

- hyrwyddo addysg **pob** plentyn sy'n derbyn gofal y mae'r awdurdod lleol yn rhiant corfforaethol arno, waeth a yw'r plentyn wedi'i leoli yn ardal yr awdurdod lleol neu'r tu allan iddi

- cydweithio â chydgysylltwyr mewn siroedd eraill er mwyn diwallu anghenion plentyn sy'n derbyn gofal mewn achosion o newid lleoliad i sir arall

- monitro data ar bresenoldeb, gwahardd, cynnydd, llesiant a chyflawniad; coladu a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad ar sail unigol a chyfunol. Defnyddio data 'gwerth ychwanegol' a chyfartaleddau treigl 3 blynedd

- llunio a chadw rhestr – trwy'r broses dderbyniadau – o blant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u gosod yn ardal yr awdurdod gan awdurdodau lleol eraill

- cydweithio â swyddog arweiniol perthnasol rhiant corfforaethol yr awdurdod lleol h.y. gweithiwr cymdeithasol, pennaeth rhithwir (o awdurdodau lleol yn Lloegr) neu Gydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ym meysydd darpariaeth addysgol a threfniadau pontio fel sy'n briodol

- cydweithio â gweithwyr cymdeithasol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn gwybod pa blant sy'n derbyn gofal

- datblygu a hyrwyddo dull o ennyn diddordeb plant sy'n derbyn gofal a chanfod eu barn ar ddarpariaeth addysgol. Dylid ystyried anghenion, gofynion a safbwyntiau plant sy'n derbyn gofal wrth ddarparu lle iddynt ar ymyraethau a rhaglenni

- gweithredu fel unigolyn cyswllt rhwng gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a gweithwyr addysg proffesiynol eraill ym meysydd Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), trefniadau derbyn, polisi ac ati.

- cydweithio â Gyrfa Cymru, Gwasanaethau Ieuenctid, y Tîm Gadael Gofal a rheolwyr perthnasol eraill er mwyn darparu cymorth priodol ac amserol a sicrhau hawliau cyffredinol

- darparu cymorth a her i awdurdodau lleol ym meysydd derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion

- gweithio gydag ysgolion er mwyn helpu i leihau effaith amgylchiadau'r cartref sy'n tarfu ar addysg y plentyn sy'n derbyn gofal drwy drefnu sesiynau 'dal i fyny', cymorth unigol neu fathau o gymorth eraill a dargedir

- lledaenu arferion da gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig, gofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol, llywodraethwyr ysgol a'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion

- sicrhau bod Cynlluniau Addysg Personol/Cynlluniau Datblygu Unigol[10] o ansawdd da wedi'u llunio ar gyfer pob plentyn, a darparu canllawiau ar sut i'w rhoi ar waith

- cyflwyno cynigion cyllideb cadarn sy'n golygu bod modd prynu a dyrannu adnoddau addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel sy'n briodol – mae angen cydweithio'n agos â chonsortia ac ysgolion unigol wrth drafod y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

- llunio a chadw rhestr o bersonau dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ym mhob ysgol yn yr awdurdod ac ar gyfer ysgolion a fynychir gan blant sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r awdurdod

- mynychu adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal fel sy'n briodol

- cyfrannu at strategaethau a chynlluniau gweithredol er mwyn hyrwyddo diddordeb, presenoldeb a chyflawniad plant sy'n derbyn gofal a grwpiau sy'n agored i niwed

- helpu i gyflwyno strategaeth a pholisi'r awdurdod lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ardal y consortia

- adrodd i'r panel rhianta corfforaethol / aelodau etholedig / yr uwch dîm rheoli ar ddeilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal yn erbyn strategaeth yr awdurdod lleol

- gweithio'n agos gyda'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu er mwyn sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal sydd mewn perygl o ymddieithrio yn cael eu cefnogi a bod llwybr yn cael ei gynllunio i leoliad ôl-16 priodol.

Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu

Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid wedi'i ddatblygu i gefnogi'r rhai sydd mewn perygl o beidio â phontio'n gadarnhaol ar ôl gadael yr ysgol. Mae'r fframwaith yn dwyn ynghyd elfennau allweddol o ymarfer effeithiol i helpu i sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc. Hefyd, mae'n darparu dull systematig fel bod awdurdodau lleol yn gallu adnabod y rhai y mae angen cymorth arnynt, nodi'r cymorth sydd ar gael, ac olrhain cynnydd pobl ifanc wrth iddynt bontio o addysg orfodol i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae pob awdurdod lleol wedi penodi Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu, sy'n gwneud cyfraniad allweddol at gyflwyno'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Mae'n gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru i ddarparu'r arweinyddiaeth weithredol sydd ei hangen i

[10]Bydd Cynlluniau Datblygu Unigol yn disodli'r Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig presennol dros gyfnod o amser ac yn cael eu defnyddio ar gyfer dysgwyr rhwng 0 a 25 oed.

nodi lefel y perygl sy'n wynebu pobl ifanc a'r cymorth penodol sydd ei angen i'w helpu i ddatblygu'n gadarnhaol.

Mae'n bosibl y bydd system adnabod yn gynnar yr awdurdod lleol yn nodi bod plentyn mewn perygl o ymddieithrio, a bydd angen i'r awdurdod lleol gydweithio â phartneriaid allweddol eraill wedyn i ddarparu cymorth priodol.

Gofalwyr maeth, gofalwyr a staff preswyl

Dylai gofalwyr maeth, gofalwyr a staff preswyl annog a chefnogi pob plentyn sy'n derbyn gofal i gyflawni amcanion a chyrraedd targedau'r Cynllun Addysg Personol (sy'n cael ei berchen gan y plentyn a'i ofalwyr) o safbwynt dyheadau addysgol (academaidd ac anacademaidd) a diddordebau hamdden sy'n helpu'r plentyn i fwynhau addysg a chyflawni ei ddeilliannau dysgu. Yn ymarferol, bydd hyn yn cynnwys darparu amgylchedd cartref a chyfarpar priodol[11] sy'n galluogi plentyn i ddysgu, astudio a gwneud ei waith cartref. Hefyd, dylent sicrhau bod y plentyn yn mynychu ysgol neu leoliad cyfatebol yn unol â'r cynllun gofal. Dylent fynd ati i gyfrannu at Gynllun Addysg Personol a chynlluniau gofal y plentyn. Dylai'r person dynodedig gyfarfod â gofalwyr i gwblhau Cynllun Addysg Personol yn rheolaidd (o leiaf ddwywaith y flwyddyn). Os yw'r Cynllun Addysg Personol yn cael ei ddiweddaru o gwbl, mae angen rhoi copi i'r gofalwr.

Yn ogystal, dylent sicrhau bod yna gysylltiad a chyfathrebu â rhieni a theulu'r plentyn yn unol â'r cynlluniau y cytunwyd arnynt.

Rydym yn cydnabod bod angen canolbwyntio mwy ar bwysigrwydd profiad gofalwyr maeth o'u haddysg eu hunain, gan ystyried rhoi cyfleoedd i ofalwyr maeth ennill cymwysterau addysgol ychwanegol. Dylai hyfforddiant ar gyfer gofalwyr maeth gynnwys hyfforddiant penodol ar sut i helpu plant gyda'u gwaith cartref, neilltuo amser i ymgymryd â gweithgareddau addysgol cadarnhaol gyda phlant, a phwysigrwydd mynychu cyfarfodydd ysgol.

I helpu i fynd i'r afael â hyn, mae'r Fframwaith Maethu[12], mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, wedi creu canllaw ar addysg yng Nghymru ar gyfer gofalwyr maeth.

Hefyd, mae Cyngor Sir Bro Morgannwg[13] wedi cyflwyno fforwm addysg llwyddiannus i ennyn diddordeb gofalwyr yn addysg y plant y maent yn gofalu amdanynt.

Rheolwyr maethu/lleoliad teuluoedd a gwasanaethau preswyl

Dylai rheolwyr maethu/lleoliad teuluoedd a gwasanaethau preswyl sicrhau bod eu gwasanaethau yn helpu gofalwyr a staff i ofalu am blant a hyrwyddo eu cyflawniad addysgol. Dylent drefnu bod staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd, gan sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, gweithdrefnau a chanllawiau, gan gynnwys safonau a chodau ymarfer gofal maeth cenedlaethol. Dylent helpu i ddatblygu a rheoli gwasanaethau

[11] Dylai plant sy'n derbyn gofal gael mynediad i gyfrifiaduron ac amrywiaeth eang o ddeunyddiau darllen. Dylai gofalwyr maeth weithio gyda'r ysgol i sicrhau bod y cyfarpar priodol yn cael ei ddarparu.

[12] https://www.thefosteringnetwork.org.uk/advice-information/looking-after-fostered-child/education

[13] http://smithjr1.wixsite.com/exchange-cymraeg

er mwyn darparu dewis digonol o leoliadau a diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal yn eu hawdurdod.

Gweithwyr cymdeithasol
Dylai gweithwyr cymdeithasol ystyried anghenion addysgol[14] plentyn ac argaeledd ysgolion a gwasanaethau priodol wrth wneud trefniadau lleoli. Yn unol ag arferion da, dylid trefnu cyfarfod Cynllun Addysg Personol â'r ysgol, y plentyn sy'n derbyn gofal, a'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal. Os oes modd, dylid gwahodd y Swyddog Adolygu Annibynnol. Bydd hyn yn rhagflaenu'r adolygiad o'r plentyn sy'n derbyn gofal, ac er na fydd modd gwneud hyn bob amser, dylid ei fabwysiadu fel arfer da.

Dylai'r gweithiwr cymdeithasol sicrhau bod cynlluniau gofal a Chynlluniau Addysg Personol yn cael eu llunio a'u hadolygu yn unol ag amserlenni statudol. Os nad yw hyn yn digwydd, dylai'r gweithiwr cymdeithasol roi gwybod i'r rheolwr dynodedig yn yr adran.

Os yw plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei leoli y tu allan i'w awdurdod lleol cartref, mae gweithiwr cymdeithasol yr awdurdod lleol cartref yn parhau i fod yn gyfrifol am y plentyn o dan y rhwymedigaethau rhianta corfforaethol. Dylai penderfyniadau yn ymwneud ag aros yn yr un ysgol a chymudo, neu symud i ysgol newydd ar ôl newid lleoliad gael eu trafod â'r plentyn sy'n derbyn gofal. Mae angen ystyried ei safbwyntiau wedyn a gwneud penderfyniad ar sail achosion unigol.

Mae angen blaenoriaethu addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal bob amser, gan gyflymu'r trefniadau ar gyfer newid ysgol.

Swyddog adolygu annibynnol
Os yw awdurdod lleol yn gofalu am blentyn, mae'n rhaid iddo benodi Swyddog Adolygu Annibynnol i oruchwylio achos y plentyn. Dylai Swyddogion Adolygu Annibynnol gadeirio cyfarfodydd adolygu pob plentyn sy'n derbyn gofal – ac eithrio mewn achosion lle y cytunwyd bod y plentyn neu'r person ifanc yn gallu cadeirio'r cyfarfod. Swyddogaeth y Swyddog Adolygu Annibynnol yw gwrando ar y plentyn a sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gofalu am y plentyn yn dda.

Dylai Swyddogion Adolygu Annibynnol ddod ag elfen o wrthrychedd a goruchwyliaeth i'r broses o gynllunio gofal a chymorth, gan sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gweithredu'n gyson wrth ofalu am y plant y mae ganddo gyfrifoldeb corfforaethol amdanynt.

Dylai'r Swyddog Adolygu Annibynnol geisio osgoi unrhyw oedi i'r broses o gynllunio gofal plant sy'n derbyn gofal a sicrhau bod ymdrechion yr awdurdod lleol wrth adolygu achosion plant yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion pob plentyn. Dylai'r Swyddog Adolygu Annibynnol sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn amserol, yn effeithiol ac yn ystyried anghenion unigol plant sy'n derbyn gofal.

Dylai'r Swyddog Adolygu Annibynnol, gweithwyr cymdeithasol, y person dynodedig ac eraill gymryd pob cam posibl i leihau amharu ar leoliad addysg mewn sefyllfa lle mae plentyn yn dechrau derbyn gofal neu'n gadael gofal, neu oherwydd bod ei leoliad gofal yn newid.

Dylai natur annibynnol y Swyddog Adolygu Annibynnol hwyluso'r cyfle i fonitro gweithgareddau awdurdod lleol fel rhiant corfforaethol, asesu ansawdd y gwasanaethau a

[14]Dylai hyfforddiant ar gyfer addysgwyr, gwasanaethau gyrfa **a** gweithwyr cymdeithasol gael ei ystyried er mwyn ceisio mynd i'r afael â chyrhaeddiad a disgwyliadau gyrfa isel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

herio gweithgareddau os oes angen. Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon, dylai'r Swyddog Adolygu Annibynnol dderbyn copi o'r Cynllun Addysg Personol ac unrhyw fersiynau diwygiedig ohono.

Ymwelydd annibynnol
Penodir ymwelwyr annibynnol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol os yw'n credu bod angen gwneud hynny er budd pennaf y plentyn. Swyddogaeth yr ymwelydd annibynnol yw ymweld â phlentyn, dod yn ffrind iddo a rhoi cyngor iddo ar unrhyw fater sy'n ei bryderu.

Cynghorwyr personol
Mae'n bosibl y bydd person ifanc yn peidio â derbyn gofal ac yn gadael gofal cyn ei fod yn 18 oed. Ar ôl i berson ifanc adael gofal, nid oes angen i'r awdurdod lleol ddarparu gweithiwr cymdeithasol ar ei gyfer, ond mae'n rhaid iddo benodi cynghorydd personol i'w gefnogi. Bydd y cynghorydd personol yn gweithredu fel canolbwynt i sicrhau bod y person sy'n gadael gofal yn derbyn y cymorth personol priodol.

Y cynghorydd personol yw'r gweithiwr proffesiynol allweddol sydd â chyfrifoldeb am gydgysylltu cymorth y person sy'n gadael gofal, ac mae'n gwneud cyfraniad allweddol at baratoi cynllun llwybr y person ifanc. Bydd y cynllun yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i helpu'r person ifanc i bontio'n llwyddiannus i fyd oedolion a bod yn fwy annibynnol, a bydd yn seiliedig ar ei gynllun gofal a chymorth presennol. Mae'n rhaid iddo roi sylw i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a dylid parhau i ddiweddaru'r Cynllun Addysg Personol tra bod y person ifanc yn parhau i dderbyn addysg lawn amser neu ran-amser.

Bydd y cynghorydd personol yn sicrhau bod y cynllun llwybr yn cael ei adolygu yn rheolaidd, bod y cynllun yn cael ei roi ar waith, a bod ganddo'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad a llesiant pobl sy'n gadael gofal.

Eiriolwr
Mae gan bob plentyn sy'n derbyn gofal hawl statudol i eiriolwr, a fydd yn helpu'r plentyn i gyfrannu at y cynllun gofal a chymorth, gan gynnwys y Cynllun Addysg Personol. Gall yr eiriolwr fod yn eiriolwr proffesiynol annibynnol neu'n eiriolwr lleyg a ddewiswyd gan y plentyn. Gall eiriolwr lleyg fod yn berthynas, yn athro neu'n ofalwr er enghraifft. Waeth a yw'r eiriolwr yn weithiwr proffesiynol annibynnol neu'n eiriolwr lleyg, bydd yn ceisio sicrhau bod safbwyntiau a dymuniadau'r plentyn yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y broses o wneud penderfyniadau yn ymwneud â'r cynllun. Hefyd, dylai'r eiriolwr fynd ati i helpu i ddatblygu ac adolygu'r Cynllun Addysg Personol. Mae'n arfer da gwahodd yr eiriolwr i unrhyw gyfarfodydd yn ymwneud â'r Cynllun Addysg Personol.

Aelodau etholedig
Mae aelodau etholedig yn gwneud cyfraniad pwysig at oruchwylio'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn gwella eu canlyniadau. Mae rhianta corfforaethol yn gosod cyfrifoldeb cyfunol ar awdurdodau lleol i sicrhau rhianta da ar gyfer pob plentyn dan ei ofal trwy:

- sicrhau bod pob cynghorydd ym mhob awdurdod lleol yn deall ei gyfrifoldebau rhianta corfforaethol a'i fod wedi ymrwymo i'w cyflawni

- sicrhau bod y strategaeth gorfforaethol yn rhoi blaenoriaeth uchel i swyddogaeth yr awdurdod lleol fel rhiant corfforaethol

- sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol. Dylai'r cynllun plant a phobl ifanc nodi sut y bydd asiantaethau yn cydweithio i gefnogi plant sy'n derbyn gofal.

- sicrhau bod gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gyfle i drafod a rhoi adborth ar ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar eu cyfer

- darparu'r cymorth y byddai rhiant da yn ei roi ym meysydd tai, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

- derbyn adroddiadau gwybodaeth reoli rheolaidd yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal

- cyflawni'r swyddogaeth sydd wedi'i chrynhoi yn y ddogfen Pe bai'n blentyn i mi... Llawlyfr i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da[15]

Darparwyr addysg ôl-16; cynorthwyo pontio effeithiol i addysg neu hyfforddiant ôl-16
Mae pontio llwyddiannus i addysg a hyfforddiant ôl-16 yn gofyn am gynllunio gofalus gan nifer o bartneriaid, yn enwedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'n bosibl na fydd ganddynt fynediad i'r un cyfalaf cymdeithasol â'u cymheiriaid, a bod angen cymorth ac anogaeth ychwanegol arnynt o ganlyniad.

Er mwyn helpu plant sy'n derbyn gofal i bontio'n llwyddiannus, dylai ysgolion, colegau, awdurdodau lleol, darparwyr ôl-16 eraill a grwpiau â buddiant greu llwybrau i ddysgu ar ôl 16 oed.

Grant Datblygu Disgyblion (PDG): plant sy'n derbyn gofal

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r PDG er mwyn goresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig rhag gwireddu eu potensial yn llawn. Mae'r PDG yn cefnogi:

- dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ac sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion a gynhelir

- dysgwyr cymwys sydd wedi'u hymrestru mewn Uned Cyfeirio Disgyblion yn unig neu sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol

- dysgwyr cymwys mewn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar sy'n rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith

- plant sy'n derbyn gofal a phlant a fu'n derbyn gofal rhwng 3 a 15 oed sydd wedi'u mabwysiadu neu sy'n destun gorchymyn gwarchodaeth arbennig neu orchymyn preswyliad.

Mae cyllid ar gyfer elfennau prydau ysgol am ddim a Blynyddoedd Cynnar y grant yn cael ei roi i ysgolion yn uniongyrchol. Mae cyllid i gefnogi plant sy'n derbyn gofal a dysgwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cael ei reoli gan y consortia addysg rhanbarthol, sy'n

[15] http://gov.wales/docs/caecd/publications/090804ifthisweremychildcy.pdf

gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol – a'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn benodol – ac ysgolion i sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Yn aml, bydd gofalwyr maeth a rhieni sy'n mabwysiadu yn holi ysgol y plentyn am y grant. Yn yr achosion hyn, dylai'r person dynodedig gyfeirio'r ymholiad i gydlynydd arweiniol y consortia addysg rhanbarthol a fydd yn darparu cyngor ac arweiniad ar y grant.

Y Cynllun Addysg Personol a'r cynllun gofal a chymorth

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[16] yn nodi cyfrifoldebau awdurdodau lleol o dan y Ddeddf ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya. Mae'r Cod yn nodi'n glir bod angen i awdurdodau lleol hyrwyddo llwyddiant addysgol fel rhan annatod o'u dyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo llesiant y plant y maent yn gofalu amdanynt.

Hefyd, mae'r Cod yn egluro'r rheoliadau sy'n pennu'r trefniadau y mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol eu gwneud er mwyn gofalu am blentyn. Mae'r broses o lunio cynllun gofal a chymorth Rhan 6 yn ganolig i'r gofynion hyn, a hwn yw'r cynllun hollgyffredinol ar gyfer y plentyn sy'n derbyn gofal. Mae'n crynhoi'r holl wybodaeth allweddol sy'n deillio o asesiad o anghenion datblygiadol y plentyn ac unrhyw asesiadau eraill o'r plentyn a'i deulu. Dylai'r broses o baratoi Cynllun Addysg Personol, cynllun iechyd a chynllun lleoli fod yn rhan annatod o'r cynllun gofal a chymorth Rhan 6 ar gyfer y plentyn.

Mae'r Cynllun Addysg Personol yn gofnod o addysg a hyfforddiant y plentyn. Dylai nodi'r camau y cytunir arnynt i helpu'r plentyn i wireddu ei botensial, gan adlewyrchu (ond nid yn dyblygu) unrhyw gynlluniau addysg sydd eisoes yn bodoli, fel datganiad anghenion addysgol arbennig[17]. Dylai'r awdurdod lleol weithio mewn partneriaeth â'r plentyn, yr ysgol (a'r person dynodedig yn benodol), gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn datblygu ac adolygu'r Cynllun Addysg Personol, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion y plentyn, ei fod yn gyfoes a'i fod yn cael ei roi ar waith.

Ac eithrio mewn achosion lle mae plentyn yn mynd i ofal mewn argyfwng, rhaid dechrau'r Cynllun Addysg Personol fel rhan o'r cynllun gofal a chymorth Rhan 6 cyn i'r person ifanc ddechrau derbyn gofal. Mewn lleoliad argyfwng, rhaid dechrau'r Cynllun Addysg Personol o fewn deg diwrnod gwaith. Dylai'r Cynllun Addysg Personol gyfrannu at asesiad o anghenion addysgol y plentyn, a rhaid i fersiwn ohono fod wedi'i baratoi ar gyfer y cyfarfod adolygu statudol cyntaf o'r cynllun gofal a chymorth Rhan 6 (28 diwrnod ar ôl i'r plentyn ddechrau derbyn gofal neu gael ei letya).

Ni ddylid ystyried y Cynllun Addysg Personol yn elfen ar wahân i rannau eraill y cynllun gofal a chymorth Rhan 6, ond dylai ategu rhannau eraill y cynllun, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag iechyd, datblygiad emosiynol ac ymddygiadol, hunaniaeth a chysylltiadau teuluol a chymdeithasol.

Ar ôl derbyn adborth gan bobl ifanc, nododd Cyngor Caerdydd nad oedd fformat y Cynlluniau Addysg Personol yn hygyrch iawn nac yn ystyriol o blant. Aeth yr awdurdod lleol

[16] http://gov.wales/docs/phhs/publications/160106pt6cy.pdf

[17] Disodlir y rhain o dan y Bil ADY gan gynlluniau datblygu unigol pan ddaw'r Bil ADY i rym.

ati i ddiweddaru ei ddogfennau a llunio Cynlluniau Addysg Personol ar wahân, y naill ar gyfer disgyblion cynradd[18] a'r llall ar gyfer disgyblion uwchradd[19].

Y Cynllun Addysg Personol a'r Cynllun Llwybr

Pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal ar fin troi'n 16 oed, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol baratoi cynllun llwybr i gynorthwyo'r person ifanc i bontio i fyd oedolion a gadael gofal. Bydd y cynllun llwybr yn adeiladu ar gynllun gofal a chymorth Rhan 6 presennol y plentyn, a fydd yn cael ei gynnwys yn y cynllun llwybr.

Bydd y cynllun llwybr yn cynnwys y camau gweithredu sydd eu hangen gan yr awdurdod lleol, gofalwr y person ifanc, y person ifanc, y rhiant a phartïon eraill a nodir i helpu'r person ifanc i bontio'n llwyddiannus o'r sector gofal. Bydd y cynllun llwybr yn parhau ar ôl i'r person ifanc droi'n 18 oed. Hefyd, dylai proses asesu a chynllunio'r llwybr benderfynu a chofnodi'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd angen eu darparu i'r person ifanc wrth iddo baratoi i adael gofal, ac ar ôl iddo adael gofal.

Un elfen y mae'n rhaid i'r cynllun llwybr fynd i'r afael â hi yw addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae angen diweddaru'r Cynllun Addysg Personol tra bod y person ifanc yn parhau i dderbyn addysg lawn amser neu ran-amser. Bydd gwybodaeth sy'n rhan o'r Cynllun Addysg Personol yn bwydo'n uniongyrchol i'r cynllun llwybr, ac mae angen ei datblygu ymhellach fel rhan o'r broses cynllunio llwybr pan fydd y person ifanc yn troi'n 16 oed. Hefyd, mae'n rhaid i gynlluniau llwybr ganolbwyntio ar gynlluniau gyrfa yn benodol, gan ystyried dyheadau, sgiliau a photensial addysgol y person ifanc.

Mae'n **rhaid** sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd uchel ar gael i'r person ifanc hefyd, er mwyn ei helpu i gynllunio unrhyw newid i addysg neu hyfforddiant parhaus, neu i gyflogaeth. Dylai'r cynllun llwybr nodi sut y bydd hyn yn digwydd. Dylai'r cymorth cynllunio gyrfa helpu pobl ifanc i sylweddoli perthnasedd eu hastudiaethau i'w cyfleoedd gyrfa a bywyd yn y dyfodol, a'u hannog i fyfyrio'n rheolaidd ar eu sgiliau, eu cryfderau a'u dyheadau.

Dylid parhau i adolygu a diweddaru'r Cynllun Addysg Personol fel rhan o'r broses llwybrau y mae rheoliadau yn pennu cyfnodau adolygu sylfaenol ar eu cyfer.

Plant sy'n derbyn gofal sy'n pontio o leoliad cyn ysgol i addysg orfodol

Mae pob plentyn sy'n dechrau yn yr ysgol yn wynebu lleoliad sy'n wahanol iawn i'w brofiadau blaenorol o safbwynt y cwricwlwm, y lleoliad a'r bobl. O safbwynt plant sy'n derbyn gofal, mae'r newid hwn yn eu bywydau yn gallu creu heriau i ymarferwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod plant yn ymgartrefu yn yr ysgol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi datblygu astudiaeth achos[20] sy'n egluro sut mae'r awdurdod yn rheoli cyfnodau pontio yn y blynyddoedd cynnar.

[18] http://docs.wixstatic.com/ugd/7516f3_1125dd60fb894eab974a65040b83be39.pdf

[19] http://docs.wixstatic.com/ugd/7516f3_670ab8c20de84d78a174b214f50ff255.pdf

[20] http://smithjr1.wixsite.com/exchange-cymraeg

Cyfraniad y person dynodedig at baratoi plant i bontio rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd

Fel y gwyddom o waith ymchwil yn Yr Alban[21], mae unrhyw gyfnod pontio, ac yn wir unrhyw newid arwyddocaol, yn gallu bod yn anodd i blant, yn enwedig plant sydd ag anghenion ymlyniad nas diwallwyd. Gall y newid sbarduno teimladau o bryder mawr ac ofn. Mae profiad o newid sy'n gadarnhaol ac wedi'i reoli'n dda yn gyfle gwerthfawr ar gyfer dysgu.

Ymyriad pontio Gwasanaeth Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACES) Castell-nedd Port Talbot

Lluniwyd Pecyn Pontio LACES Castell-nedd Port Talbot [22] i helpu i gefnogi disgyblion blwyddyn 6 sy'n symud i'r ysgol uwchradd. Mae modd addasu'r pecyn a'i ddefnyddio pan fydd plant yn dechrau yn yr ysgol, yn symud i flwyddyn wahanol neu'n newid ysgol. Mae ysgolion yn gallu adnabod disgyblion sydd wedi derbyn gofal a fyddai'n elwa ar y dull hwn o gymorth pontio mwy sensitif.

Mae 'ymyriad pontio' LACES[23] yn cael ei roi ar waith fel arfer yn ystod sesiynau wythnosol am chwe wythnos. Y nod yw paratoi pob disgybl i bontio mewn ffordd sydd mor hyderus ac effeithiol â phosibl. Mae aelod o staff LACES yn cadw cysylltiad â phob disgybl gydol blwyddyn 6 a 7 er mwyn sicrhau ei fod yn gwybod ac yn teimlo bod rhywun yn meddwl amdano.

Addysg ôl-16

Polisi Datblygiad Ôl-16 ar y cyd neu Gytundeb Lefel Gwasanaeth
Dylai'r person dynodedig dderbyn cyfrifoldeb am sicrhau bod holl aelodau staff yr ysgol yn ymwybodol o'r polisi ac yn deall eu cyfraniad at gynorthwyo datblygiad plant sy'n derbyn gofal, a bod y datblygiad hwnnw'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd.

Dylai'r Polisi gynnwys:

- y broses ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth am ddisgyblion. Dylai'r wybodaeth gynnwys:
    - y Cynllun Addysg Personol
    - strategaethau ar gyfer ymdrin â datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol person ifanc
    - cryfderau a gwendidau
    - anghenion cymorth

- disgwyliadau ar gyfer gweithio gyda darparwyr ôl-16

- swyddogaeth staff, rhieni/gofalwyr a phlant yn y broses ddatblygu

[21] https://www.celcis.org/files/7314/6367/6206/Imp_transitions_to_secondary_school_FINAL.pdf

[22] http://docs.wixstatic.com/ugd/7516f3_43dd824019384d7689ba7c0ff6e788ec.pdf

[23] http://www.exchangewales.org/careandeducationcasestudies

- ymrwymiad i ddatblygu dealltwriaeth o ddulliau addysgu a dysgu mewn lleoliadau ôl-16 a hwyluso cyfleoedd DPP ar y cyd ar gyfer athrawon, darlithwyr a thiwtoriaid yn y ddau leoliad

- gwybodaeth am sut i baratoi dysgwyr ar gyfer dulliau dysgu newydd mewn lleoliadau ôl-16 e.e. datblygu sgiliau dysgu'n annibynnol a rheoli amser

- rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau allgymorth sy'n cael eu cynnig gan ddarparwyr ôl-16

- amlinelliad o'r wybodaeth a'r cymorth a fydd ar gael i ddisgyblion e.e. gwybodaeth am y Lwfans Cynhaliaeth Addysg a'r broses ymgeisio.

Swyddogaeth y person dynodedig wrth baratoi plant sy'n derbyn gofal i bontio i addysg ôl-16, hyfforddiant neu gyflogaeth
Dylai'r broses o gynllunio ar gyfer pontio ddechrau'n gynnar, yn ddelfrydol ar ddiwedd blwyddyn 9 wrth i ddysgwyr ddewis eu pynciau TGAU.

Dylai'r person dynodedig sicrhau bod pob disgybl yn derbyn cyngor diduedd annibynnol ar yr ystod lawn o ddewisiadau ôl-16 sydd ar gael, gan gynnwys addysg alwedigaethol a dysgu seiliedig ar waith.

Darparwyr addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith
Dylai darparwyr addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith gael eu gwahodd i'r ysgol ar adegau priodol yn ystod addysg y disgybl i siarad am eu cyrsiau a'u hyfforddiant, ac egluro natur astudio mewn coleg neu ddilyn prentisiaeth.

Dylai dyheadau gyrfa a llwybrau datblygiad dysgwyr gael eu nodi yn eu Cynlluniau Addysg Personol, a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu amcanion ac uchelgeisiau pobl ifanc.

Cyfnodau Allweddol 3 a 4
Dylai'r person dynodedig, gofalwr/gofalwyr a gweithwyr cymdeithasol helpu'r person ifanc i nodi darpariaeth ôl-16 ymarferol a phriodol.

Cyfarfod Cynllun Addysg Personol/cyfarfod ar ôl pontio
Bydd y person dynodedig yn trefnu cyfarfod Cynllun Addysg Personol/cyfarfod ar ôl pontio ac yn gwahodd pawb sydd â buddiant h.y. y person ifanc a'i ofalwr/gofalwyr, y gweithiwr cymdeithasol, cynrychiolydd y darparwr ôl-16 a'r cynghorydd personol os yn briodol.

Mae'r cyfarfod hwn yn gyfle i'r person ifanc a'i ofalwr gyfarfod ag unigolyn cyswllt allweddol y darparwr ôl-16 a thrafod unrhyw gymorth sydd ei angen ar y dysgwr o bosibl i bontio'n llwyddiannus.

Hefyd, mae'n gyfle i gynrychiolydd y darparwr ôl-16 gyfarfod â chynghorydd personol a gweithiwr cymdeithasol y person ifanc, sy'n gwneud cyfraniad allweddol at ei helpu i aros mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16.

Ymweliadau â darparwyr
Dylai'r darparwr ôl-16 wahodd y person ifanc i ymweld â'r safle, dod yn gyfarwydd â chynllun y lle, a chyfarfod ag aelodau staff allweddol. Dylai'r person dynodedig helpu'r

person ifanc i fynychu diwrnodau agored a diwrnodau blasu, er enghraifft, trwy drefnu cludiant neu fynychu'r lleoliad gyda'r person ifanc.

Cynnig dysgu
Dylai'r person dynodedig wneud pob ymdrech i sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion gynnig dysgu cyn eu bod yn gadael i baratoi am arholiadau neu astudio, gan olrhain unrhyw ddisgyblion nad oes ganddynt gynnig. Dylai'r person dynodedig dderbyn copi o lythyr cynnig y darparwr ôl-16, a dylai'r llythyr nodi beth y dylai'r disgybl ei wneud os nad yw'n sicrhau'r graddau gofynnol. Os nad yw'n derbyn llythyr o'r fath, dylai'r person dynodedig wneud pob ymdrech i gael y wybodaeth gan y darparwr ôl-16.

Tîm gadael gofal yr awdurdod lleol
Yn ystod y cyfnod hwn, gall y person ifanc adael gofal a dod o dan oruchwyliaeth tîm gadael gofal yr awdurdod lleol.

Cynghorydd personol/Cynllun Llwybrau
Dylid neilltuo cynghorydd personol ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal, a bydd yr unigolyn hwn yn gweithredu fel mentor wrth i'r plentyn bontio i fyd oedolion. Bydd y cynghorydd personol a'r gweithiwr cymdeithasol yn defnyddio'r Cynllun Addysg Personol fel sylfaen i lunio Cynllun Llwybrau sy'n datblygu'r Cynllun Gofal.

Bydd y cynghorydd personol yn sicrhau bod y cynllun yn ymarferol a chyraeddadwy a bydd yn mynd ati i drefnu cyfarfodydd adolygu, gan dderbyn cyfrifoldeb am gyfleu'r canlyniadau i asiantaethau ac unigolion eraill yn ôl yr angen, gan gynnwys ysgolion a darparwyr ôl-16. Mae'n hanfodol bod y cynllun yn nodi bwriadau'r person ifanc i symud ymlaen i addysg ôl-16 er mwyn sicrhau ei fod yn derbyn y cymorth a'r cyllid gofynnol.

Cynllun Dysgu Unigol ÔI-16
Dylai'r person dynodedig hwyluso'r broses o drosglwyddo gwybodaeth a amlinellwyd o'r blaen i'r darparwr ôl-16, a fydd yn defnyddio'r Cynllun Addysg Personol a'r Cynllun Llwybrau fel sylfaen i lunio Cynllun Dysgu Unigol ÔI-16 mewn cydweithrediad â'r dysgwr a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Ar ôl i'r person ifanc bontio'n llwyddiannus i addysg a hyfforddiant ôl-16, dylai'r person dynodedig ddisgwyl derbyn diweddariadau ar ddatblygiad y person ifanc, a dylai'r darparwr ôl-16 hysbysu'r person dynodedig am gyrchfan y person ifanc ar ôl iddo gwblhau'r cwrs neu'r hyfforddiant. Bydd hyn yn helpu i hysbysu'r person dynodedig am y broses ddatblygu, a yw'n llwyddo a pha welliannau sydd angen eu gwneud. Hefyd, dylent ofyn am adborth ar y broses gan blant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal.

Cysylltiadau â chanllawiau presennol

Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal[24]

Mae'r canllawiau 'cwestiynau cyffredin' hyn yn egluro sut mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei weinyddu a sut mae'r meini prawf cymhwysedd yn gweithredu.

Derbyn i Ysgolion [25]

Mae'r adran hon yn crynhoi'r cod ymarfer ar gyfer derbyn plant, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, i ysgolion. Hefyd, dylid rhoi blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal a phlant a fu'n derbyn gofal ym meini prawf gor-alw ysgolion lle nad oes digon o leoedd i fodloni'r galw.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)[26]

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi ystyriaeth arbennig i anghenion addysg a hyfforddiant plentyn sy'n derbyn gofal wrth ei leoli, gan sicrhau nad yw'r lleoliad yn amharu ar addysg neu hyfforddiant plentyn. Hefyd, mae rheoliadau o dan y Ddeddf yn pennu gofynion penodol ar gyfer awdurdodau lleol wrth leoli plant sy'n derbyn gofal yng Nghyfnod Allweddol 4, gan gydnabod bod symud plant yng nghanol cwrs TGAU yn gallu amharu'n ddifrifol ar eu cyfle i ennill y cymwysterau sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen i addysg bellach, addysg uwch neu gyflogaeth.

Trosglwyddo cofnodion addysgol y plentyn[27]

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu cyngor a chanllawiau ar gadw, gwaredu, datgelu a throsglwyddo cofnod addysgol plentyn.

Atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg

Mae gan bob awdurdod lleol Wasanaeth Seicoleg Addysg, ac mae darpariaeth y gwasanaeth yn amrywio yn unol ag anghenion lleol. Bydd Seicolegwyr Addysg yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc i gefnogi eu datblygiad, eu llesiant, eu cryfder, eu haddysg a'u cyflawniad.

Canllawiau'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg [28]

Bwriedir y canllawiau hyn ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol a rhieni/gofalwyr, ac maent yn cynnwys trosolwg o gyfrifoldebau Seicolegwyr Addysg a'r gwasanaethau y gallant eu darparu.

---

[24] http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150506-looked-after-children-frequently-asked-questions-cy-v2.pdf
[25] http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/admissions-and-appeals-code/?skip=1&lang=cy
[26] http://gov.wales/docs/phhs/publications/160106pt6cy.pdf
[27] http://gov.wales/about/foi/publications-catalogue/circular/circulars2006/1552927/?skip=1&lang=cy
[28] http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/additional-learning-special-educational-needs/transformation-programme/supporting-policy/educational-psychologists-in-wales/?skip=1&lang=cy

Materion ymddygiad[29]
Nod yr adnodd hwn yw gwella ymarfer athrawon cynradd sydd newydd gymhwyso. Mae'n canolbwyntio ar ddulliau rheoli ymddygiad cyffredinol, ond nid yw'n rhoi sylw i faterion yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig yn benodol.

Gwahardd[30]
Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor ar:

- wahardd dysgwyr o ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion
- y gweithdrefnau ar gyfer apelio yn erbyn gwaharddiad
- sut i gynnal addysg dysgwyr sydd wedi'u gwahardd.

Addysg bellach[31]
Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys enghreifftiau o ymarfer da er mwyn helpu sefydliadau addysg bellach (SAB) i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal yn effeithiol.

Mae SAB wedi ceisio datblygu ymarfer da Buttle UK. Cyhoeddwyd deunyddiau ymarfer da, yn seiliedig ar egwyddorion Marc Safon Buttle ym mis Tachwedd 2015. Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi gweithio i sefydlu'r egwyddorion hyn, gan gynnwys trosi'r deunyddiau presennol yn 'adnodd'[32] rhyngweithiol ar gyfer SAB a chanfod safbwyntiau rhanddeiliaid ar ddeall dysgu ôl-16.

Adroddiad Estyn ar ymarfer da[33]
Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ymarfer da mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos o ymarfer da. Fe'i bwriedir ar gyfer Llywodraeth Cymru, llywodraethwyr, penaethiaid, uwch arweinwyr a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Gwaith ymchwil CASCADE [34]
Ym mis Ionawr 2015, aeth Llywodraeth Cymru ati i gomisiynu astudiaeth ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac addysg. Aeth CASCADE ati i gwblhau'r ymchwil: *Understanding the educational experiences and opinions, attainment, achievement and aspirations of looked after children in Wales* dros gyfnod o chwe mis.

Gwrando ar safbwyntiau pobl ifanc sydd â phrofiad o'r system ofal
Mae ymgysylltu cadarnhaol yn allweddol. Mae plant sy'n derbyn gofal wedi dweud yn glir nad ydynt eisiau cael eu labelu; nid ydynt eisiau cael eu trin yn wahanol, ac maent am fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar weddill eu bywydau. Mae'r **fideo**[35] hon ar gyfer ysgolion gan CASCADE yn darparu gwybodaeth glir am

[29] http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140822-behaviour-management-handbook-for-primary-schools-cy.
[30] http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/exclusion/?skip=1&lang=cy
[31] http://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-care-leavers-in-further-education/?skip=1&lang=cy
[32] http://smithjr1.wixsite.com/exchange-cymraeg
[33] https://www.estyn.llyw.cymru/newyddion/codi-cyrhaeddiad-cyflawniad-dyheadau-plant-sy%E2%80%99n-derbyn-gofal
[34] http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/looked-after-children-and-education/
[35] https://vimeo.com/214645169/e69c78e447

safbwyntiau a barn rhai plant sy'n derbyn gofal. Mae'r neges yn gwbl glir. Mae'n rhaid i ni, fel oedolion, ddechrau gwrando ar y negeseuon a gweithredu.

Mae gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal uchelgeisiau a dyheadau uchel ac rydym yn eu methu os ydym yn disgwyl iddynt beidio â gwireddu eu potensial llawn. Dylai dyheadau ac uchelgeisiau oedolion sy'n bwysig i fywydau plant sy'n derbyn gofal efelychu dyheadau ac uchelgeisiau'r plant. Mae cymorth cryf a phriodol – ynghyd ag ymdeimlad cadarn o gredu – yn hanfodol i sicrhau llwyddiant.

Mae angen sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael cyfleoedd rheolaidd i gyfarfod ag eraill sydd wedi derbyn gofal. Mae darpariaeth yn y cyswllt hwn ar gael gan y Rhwydwaith Maethu a Voices From Care[36] a dylid ystyried y rhain yn fodelau arferion gorau i ddatblygu rhagor o gymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Dylai'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion gyfeirio dysgwyr i'r darparwyr hyn.

Cyngor arall ar gyfer y person dynodedig

Wrth gyflwyno rhaglenni ymyrryd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae angen llunio cynlluniau cynhwysfawr i drafod y man terfyn er mwyn lleihau trallod.

Dylid ystyried rhaglenni cyffredinol sydd ar gael i blant a phobl ifanc o bob math yn hytrach nag i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn unig. Gall rhaglenni o'r fath achosi llai o stigma a bod yn fwy manteisiol i grŵp demograffig ehangach.

Astudiaethau achos arfer da

Mae awdurdodau lleol, consortia ac ysgolion yn cael eu hannog i greu astudiaethau achos ymarfer da i'w rhannu ag ymarferwyr a gofalwyr drwy'r gymuned ymarfer ar-lein: *ExChange – Gofal ac Addysg.*

Mae'r astudiaethau achos canlynol ar gael:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen[37]
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi llunio polisi sy'n nodi bod pob ysgol yn enwebu llywodraethwr ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r unigolyn hwn yn adrodd i'r Corff Llywodraethu. Cafeat – nid oes unrhyw ofyniad statudol ar gyfer rôl benodol llywodraethwr ysgol enwebedig; fodd bynnag, gall rhai ysgolion ac awdurdodau lleol ddewis enwebu unigolyn o'r fath.

Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)[38]
Mae Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) wedi creu canllawiau ar swyddogaeth Llywodraethwr Cyswllt Plant sy'n Derbyn Gofal. Cafeat – nid oes unrhyw ofyniad statudol i Gyrff Llywodraethu benodi llywodraethwr cyswllt ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ond mae llawer o awdurdodau lleol yn argymell y dylent wneud hyn.

Hefyd, mae ERW creu templed[39] ar gyfer Penaethiaid er mwyn rhoi diweddariad i lywodraethwyr bob tymor.

---

[36] http://www.vfcc.org.uk/
[37] http://www.exchangewales.org/careandeducationcasestudies
[38] http://www.exchangewales.org/careandeducationcasestudies
[39] http://www.exchangewales.org/careandeducationcasestudies

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot[40]
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi datblygu polisi ysgol enghreifftiol ar gyfer addysg disgyblion sy'n derbyn gofal (enghraifft ddrafft).

Ysgol Gynradd Tredelerch, Caerdydd[41]
Mae Ysgol Gynradd Tredelerch, Caerdydd wedi creu astudiaeth achos ar swyddogaeth y person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Hefyd, mae'r ysgol wedi creu astudiaeth achos yn ymwneud â defnyddio therapïau i gefnogi anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant sy'n derbyn gofal.

Coleg Gwent[42]
Mae Coleg Gwent wedi datblygu strategaeth ar gyfer cefnogi dysgwyr agored i niwed ym maes addysg bellach trwy gyflwyno protocol rhannu gwybodaeth gyda thimau gadael gofal awdurdodau lleol.

Hyfforddiant sydd ar gael

Mae'n rhaid i'r person dynodedig gwblhau'r hyfforddiant perthnasol, sy'n cael ei ddarparu neu ei drefnu fel arfer gan y Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ym mhob awdurdod lleol. Ewch i'r adran ar swyddogaeth y Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal.

Mae consortia'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS)[43] wedi darparu hyfforddiant ar gyfer person(au) dynodedig yn y De-ddwyrain, ac mae detholiad defnyddiol o ddeunyddiau hyfforddi wedi'i ddatblygu.

Datblygu arfer da: rhestr wirio o gwestiynau

Mae **Estyn** wedi creu rhestri gwirio i'w cwblhau gan ysgolion[44] ac awdurdodau lleol[45] er mwyn llywio'r cyhoeddiad: *Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal – adroddiad arferion da*. Mae'r adnoddau defnyddiol hyn wedi'u cynllunio i helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i gynnal hunanasesiad er mwyn gweld i ba raddau y maent yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal a nodi unrhyw feysydd sydd angen eu gwella.

[40] http://www.exchangewales.org/careandeducationcasestudies
[41] http://www.exchangewales.org/careandeducationcasestudies
[42] http://www.exchangewales.org/careandeducationcasestudies
[43] http://www.exchangewales.org/careandeducationcasestudies
[44] http://www.exchangewales.org/careandeducationcasestudies
[45] http://www.exchangewales.org/careandeducationcasestudies

Cysylltiadau defnyddiol

Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid allweddol i wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae rhagor o wybodaeth am waith ein partneriaid ar gael ar y gwefannau canlynol.

Estyn: Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
www.estyn.gov.wales/language

Y Rhwydwaith Maethu
www.thefosteringnetwork.org.uk

Voices From Care
http://voicesfromcarecymru.org.uk/

CASCADE – Prifysgol Caerdydd
http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/

Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)
http://www.erw.cymru/

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
http://www.cscjes.org.uk/Home.aspx?lang=cy-gb

Gwasanaeth Cyflawni Addysg
https://sewales.org.uk/Home.aspx?lang=cy-gb

GWE – Consortiwm Gogledd Cymru
www.gwegogledd.cymru/cy

Manylion cyswllt Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a chydgysylltwyr arweiniol Grant Datblygu Disgyblion Plant sy'n Derbyn Gofal
http://www.exchangewales.org/careandeducationkeycontacts

Atodiad: Dogfennau cysylltiedig

Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru – Strategaeth (Llywodraeth Cymru, 2016)
http://gov.wales/docs/dcells/publications/160127-lac-strategy-cy.pdf

Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru – Strategaeth (fersiwn darllen syml) (Llywodraeth Cymru, 2016)
http://gov.wales/docs/dcells/publications/151218-easy-read-lac-strategy-cy.pdf

Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal – adroddiad arferion da. (Estyn, 2016)
https://www.estyn.llyw.cymru/newyddion/codi-cyrhaeddiad-cyflawniad-dyheadau-plant-sy%E2%80%99n-derbyn-gofal

Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru: flwyddyn yn ddiweddarach (Llywodraeth Cymru, 2017)
http://gov.wales/docs/dcells/publications/170509-looked-after-children-cy.pdf

Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru: flwyddyn yn ddiweddarach (fersiwn darllen syml) (Llywodraeth Cymru*, 2017)*
http://gov.wales/docs/dcells/publications/170509-looked-after-children-easy-read-cy.pdf